# CANLLAW I YSGOLION A MUDIADAU IEUENCTID

WELSH YOUTH PARLIAMENT

SENEDD IEUENCTID CYMRU

# SENEDD IEUENCTID CYMRU

## YN 2018, BYDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN SEFYDLU SENEDD IEUENCTID CYMRU.

Bydd yn cynnig ffordd gwbl newydd i bobl ifanc Cymru rhwng 11 a 18 oed sicrhau eu bod yn cael eu clywed ar lefel genedlaethol. Bydd yn eu galluogi i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n bwysig i bobl ifanc yng Nghymru, a thrafod y materion hynny.

Drwy gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth pynciau llosg, bydd plant a phobl ifanc yn cael profiad uniongyrchol o sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio a'r effaith uniongyrchol y gall ei chael ar eu bywydau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Senedd Ieuenctid Cymru ar y wefan, ***www.seneddieuenctid.cymru***.

# SUT BETH FYDD SENEDD IEUENCTID CYMRU?

## FEL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, BYDD GAN SENEDD IEUENCTID CYMRU 60 O AELODAU.

Bydd 40 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru'n cael eu hethol drwy system 'Cyntaf i'r Felin', gan ethol un person ifanc ar gyfer pob etholaeth etholiadol yng Nghymru.

Gall unrhyw berson ifanc sy'n byw yng Nghymru, neu sy'n cael addysg yng Nghymru, sydd rhwng 11 a 18 oed, sefyll fel ymgeisydd yn un o'r 40 sedd etholaethol.

Caiff yr 20 sedd arall eu hethol gan sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli.

Bydd gan bob un o’r 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru statws cyfartal, a’r un rôl a chyfrifoldebau yn y Senedd.

# BETH MAE'N EI OLYGU I FOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU?

## BYDD AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU YN RHAN O GRŴP O 60 O BOBL IFANC 11 OED A HYD AT 18 OED O BOB CWR O GYMRU.

Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn gwrando ar bobl ifanc yng Nghymru a thrafod gyda nhw beth mae Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio arno. Byddant yn ymwybodol o'r materion sy'n bwysig i bobl ifanc ledled Cymru, yn codi ymwybyddiaeth ohonynt ac yn eu trafod.

Fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, bydd pobl ifanc yn:

- Penderfynu ar waith sy'n bwysig iddynt, ac yn arwain arno.
- Cefnogi Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru.
- Ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad ynghylch gwaith Senedd Ieuenctid Cymru.
- Cyfrannu at waith pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio, a'r effaith y maent yn ei chael ar fywydau pobl Cymru.
- Cwrdd â'i gilydd fel Senedd Ieuenctid Cymru yn ei chyfanrwydd dair gwaith yn ystod y tymor o ddwy flynedd.
- Cwrdd â'i gilydd ar lefel ranbarthol ac mewn digwyddiadau ymgysylltu bob 2-3 mis.
- Llunio dyfodol Senedd Ieuenctid Cymru.
- Datblygu a chynyddu cynrychiolaeth pobl ifanc mewn modd cadarnhaol.

# CYNRYCHIOLI DYFODOL CYMRU

## CAIFF CYMRU EI RHANNU'N 40 O ARDALOEDD LLAI O'R ENW ETHOLAETHAU. BYDD POBL IFANC YN GALLU ENWEBU EU HUNAIN I SEFYLL I GAEL EU HETHOL I GYNRYCHIOLI'R ETHOLAETHAU HYN.


Trefnir yr etholaethau hyn yn bedwar rhanbarth yng Nghymru. Bydd pobl ifanc yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithio gydag Aelodau eraill Senedd Ieuenctid Cymru o'u rhanbarth lleol.

### GOGLEDD CYMRU:

1. Ynys Môn
2. Arfon
3. Aberconwy
4. Gorllewin Clwyd
5. Dyffryn Clwyd
6. Delyn
7. Alun a Glannau Dyfrdwy
8. Wrecsam
9. De Clwyd
10. Dwyfor Meirionydd
11. Sir Drefaldwyn

### CANOLBARTH CYMRU:

12. Ceredigion
13. Brycheiniog a Sir Faesyfed
14. Preseli Sir Benfro
15. Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
16. Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
17. Llanelli




## DE-ORLLEWIN CYMRU:

18. Gŵyr
19. Gorllewin Abertawe
20. Dwyrain Abertawe
21. Castell-nedd
22. Aberafan
23. Ogwr
24. Pen-y-bont ar Ogwr
25. Rhondda
26. Cwm Cynon
27. Pontypridd
28. Bro Morgannwg

## DE DDWYRAIN CYMRU:

29. Gorllewin Caerdydd
30. Gogledd Caerdydd
31. Canol Caerdydd
32. De Caerdydd a Phenarth
33. Merthyr Tudful a Rhymni
34. Blaenau Gwent
35. Torfaen
36. Mynwy
37. Caerffili
38. Islwyn
39. Gorllewin Casnewydd
40. Dwyrain Casnewydd

# PA GYMORTH Y GALL AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU EI DDISGWYL GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU?

## BYDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN CEFNOGI HOLL AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU YN Y FFYRDD CANLYNOL:

- Bydd pob Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn cael aelod o staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfaill am y cyfnod y mae'n Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd yr aelod hwn o staff yn darparu cefnogaeth ac arweiniad, a bydd yn berson cyswllt ar gyfer unrhyw gymorth neu gyngor ynghylch Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth reolaidd am y newyddion diweddaraf, ac yn darparu gwybodaeth am gyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar y gweill.
- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwybodaeth i rieni neu warcheidwaid Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru am eu rôl yn Senedd Ieuenctid Cymru.
- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth i ysgolion a mudiadau ieuenctid ynghylch eu rôl yn Senedd Ieuenctid Cymru.

- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn talu unrhyw gostau Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru sy'n ymwneud â'u gwaith gyda Senedd Ieuenctid Cymru, megis:
  - Teithio awdurdodedig;
  - Llety;
  - Bwyd;
  - Costau mynd i weithgareddau a gaiff eu trefnu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu opsiynau cludiant ar gyfer digwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru a gaiff eu trefnu gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu hyfforddiant perthnasol a defnyddiol ar yr hyn yw'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu arweiniad a hyfforddiant clir ar bolisïau y bydd angen i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu dilyn, gan gynnwys: cyfryngau cymdeithasol, cyfle cyfartal, diogelu ac amddiffyn plant.
- Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cael hyfforddiant ac arweiniad llawn ar unrhyw waith y gofynnir iddynt ei wneud ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru, gan gynnwys: hyfforddiant ymchwil, siarad cyhoeddus, sgiliau dadlau, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, diogelu ac unrhyw beth arall sy'n briodol.
- Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cymorth i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru am eu datblygiad personol a datblygu eu rôl yn Sene[illegible] Ieuenctid Cymru i'w helpu i wneud y gorau y gallant[illegible]

# CYFRIFOLDEBAU BOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU

## MAE BOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU YN GYFLE GWYCH I BOBL IFANC 11 A HYD AT 18 OED LEDLED CYMRU.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ddilyn y Cod Ymddygiad a chadw ato. Os na fydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn dilyn y Cod Ymddygiad, cynhelir ymchwiliad teg i'w hymddygiad ac unrhyw honiadau a wneir cyn penderfynu beth fydd y canlyniadau.

Bydd fersiwn fanwl o'r Cod Ymddygiad yn cael ei rhoi i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru unwaith y byddant wedi cael eu hethol.

Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn gyfrifol am:

- Fynd i holl gyfarfodydd swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru;
- Sôn am unrhyw bryderon neu drafferthion wrth aelodau priodol o staff;
- Rhoi gwybod i staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw newidiadau i wybodaeth bersonol ac amgylchiadau;
- Parchu'r Gymraeg;
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn briodol ac o fewn canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Parchu didueddrwydd gwleidyddol Senedd Ieuenctid Cymru;
- Parchu Aelodau eraill Senedd Ieuenctid Cymru, staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac unrhyw grwpiau / unigolion allanol y maent yn dod i gysylltiad â nhw;
- Cadw at y gyfraith bob amser a pheidio ymgymryd â gweithgareddau anghyfreithlon wrth gymryd rhan ym musnes Senedd Ieuenctid Cymru;
- Ymddwyn mewn ffordd nad yw'n dod ag anfri ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



# PA YMRWYMIAD A DDISGWYLIR GAN BOBL IFANC?

## MAE POB TYMOR SENEDD IEUENCTID CYMRU YN PARA DWY FLYNEDD - FELLY BYDD DISGWYL I BOBL IFANC GYMRYD RHAN MEWN GWEITHGAREDDAU SENEDD IEUENCTID CYMRU AM DDWY FLYNEDD.

Bydd pob un o'r 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cwrdd fel grŵp cyfan dair gwaith yn ystod eu tymor o ddwy flynedd.

Y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn yw:

- 22 – 24 Chwefror 2019
- 25 – 27 Hydref 2019
- 13 – 15 Tachwedd 2020

Rhyngddynt, byddant yn gweithio yn eu hardaloedd rhanbarthol, yn cwrdd ag Aelodau lleol eraill Senedd Ieuenctid Cymru, a thrafod materion gyda nhw.

Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc eraill yn yr ardal ac yn mynd i ddigwyddiadau a drefnir ar adegau a dyddiadau sy'n addas i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru o'r rhanbarth hwnnw.

# PA RÔL Y GALL YSGOLION A MUDIADAU IEUENCTID EI CHWARAE WRTH GEFNOGI SENEDD IEUENCTID CYMRU?

## MAE'R SAIL AR GYFER Y LLAIS HWN I DDISGYBLION/MYFYRWYR/POBL IFANC, SYDD HEFYD YN GANOLOG I'R CWRICWLWM NEWYDD, I'W GAEL YN ERTHYGL 12 O GONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN (UNCRC).

Mae hwn yn nodi hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar unrhyw fater sy'n effeithio arnynt.

Er mwyn annog cymaint o bobl ifanc â phosibl i gymryd rhan yng ngwaith Senedd Ieuenctid Cymru, mae tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu cefnogaeth ysgolion, colegau a mudiadau ieuenctid yng Nghymru i annog pobl ifanc i ymgysylltu â Senedd Ieuenctid Cymru.

Ein gobaith yw y bydd pobl ifanc o wahanol oedrannau, rhyw, cefndiroedd cymdeithasol-economaidd, galluoedd ac ethnigrwydd, o bob rhan o Gymru, yn cymryd rhan yng ngwaith Senedd Ieuenctid Cymru mewn rhyw ffordd. Naill ai trwy gofrestru i bleidleisio, trwy sefyll mewn etholiad, trwy bleidleisio yn ystod yr etholiad, neu drwy ryngweithio ag Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ar faterion sy'n bwysig iddynt.

Gall ysgolion a sefydliadau ieuenctid gysylltu â staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am Senedd Ieuenctid Cymru i ofyn am weithdy gwybodaeth i bobl

ifanc. Darperir y gweithdy hwn yn ddi-dâl a bydd yn darparu gwybodaeth am Senedd Ieuenctid Cymru i bobl ifanc, a sut y gallant sefyll i gael eu hethol.

Gall ysgolion a mudiadau ieuenctid gefnogi Senedd Ieuenctid Cymru yn y ffyrdd a ganlyn:

- Addysgu pobl ifanc am Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Codi ymwybyddiaeth o Senedd Ieuenctid Cymru;
- Hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfryngau cymdeithasol neu mewn cylchlythyrau ac ar wefannau;
- Annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru;
- Annog pobl ifanc i sefyll yn yr etholiad i ddod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru a chynnig cefnogaeth i'r bobl ifanc yn ystod y broses ymgeisio;
- Cefnogi pobl ifanc sy'n sefyll yn yr etholiad yn ystod y cyfnod 3 wythnos o bleidleisio, trwy eu helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc eraill mewn ysgol neu fudiad ieuenctid;
- Deall sut y gall pobl ifanc bleidleisio yn ystod cyfnod 3 wythnos yr etholiad, a darparu cyfleoedd i bobl ifanc bleidleisio ar-lein;
- Rhannu gwybodaeth am Senedd Ieuenctid Cymru o fewn eich rhwydweithiau eich hun;
- Annog pobl ifanc i fynd i ddigwyddiadau a drefnir gan Senedd Ieuenctid Cymru;
- Gwahodd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i ddigwyddiadau a gweithgareddau mewn ysgol neu grŵp ieuenctid.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu adnoddau y gellir eu llwytho oddi ar y we, cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, posteri, taflenni ac ati ar gyfer ysgolion a mudiadau ieuenctid i helpu gyda'r gwaith o hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru. Gallwch ofyn am y deunyddiau hyn trwy anfon e-bost at **helo@seneddieuenctid.cymru**

Gall ysgolion a mudiadau ieuenctid ganfod mwy trwy edrych ar **www.seneddieuenctid.cymru**.

# A ALL PERSON IFANC O'M HYSGOL NEU FUDIAD IEUENCTID SEFYLL YN YR ETHOLIAD?

**GALL! GALL UNRHYW BERSON IFANC SY'N BYW YNG NGHYMRU, NEU SY'N CAEL ADDYSG YNG NGHYMRU, ENWEBU EI HUN YN YMGEISYDD AR GYFER UN O'R 40 SEDD ETHOLAETHOL. FODD BYNNAG, BYDD ANGEN BOD O LEIAF 11 OED A DIM HŶN NA 17 OED AR DDIWRNOD OLAF YR ETHOLIAD (25 TACHWEDD 2018).**

Gall y bobl ifanc hynny sy'n gymwys i sefyll yn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru sefyll fel ymgeisydd yn un o'r 40 sedd etholaethol, ac fel un o'r bobl ifanc a gaiff eu hethol gan sefydliad partner swyddogol y Senedd Ieuenctid ar yr un pryd. Os yw person ifanc yn ennill y mwyafrif o bleidleisiau ar gyfer un o'r 40 sedd etholaethol, ac mai dyma'r ymgeisydd dewisol a gaiff ei ethol gan sefydliad partner swyddogol y Senedd Ieuenctid, y person ifanc fydd yn dewis pa sedd y mae am ei derbyn, a pha un i'w gwrthod. Bydd y sedd a wrthodir yn cael ei chynnig i'r person ifanc a ddaeth yn ail o ran nifer y pleidleisiau yn yr etholaeth honno, neu'n cael ei chynnig i sefydliad partner swyddogol y Senedd Ieuenctid a fydd, wedyn, yn ethol person ifanc arall.

Ar gyfer y sedd etholaeth, bydd angen i'r person ifanc lenwi ffurflen gais yn **www.seneddieuenctid.cymru**. Bydd y ceisiadau'n agor ar 3 Medi 2018 ac yn cau ar 30 Medi 2018. NI fydd pobl ifanc yn gallu gwneud cais ar ôl y dyddiad hwn a NI wneir unrhyw eithriadau.

Bydd y ffurflen yn cymryd tua 15 munud i'w chwblhau. Bydd angen i bobl ifanc ddarllen y cyflwyniad ac os ydynt o dan 16 oed, bydd yn rhaid iddynt gadarnhau bod ganddynt ganiatâd rhiant / gwarcheidwad i ymgeisio.

Bydd angen i bobl ifanc ddarparu'r wybodaeth ganlynol i wneud cais:

- Enw;
- Cyfeiriad a chod post;
- Cyfeiriad e-bost;
- Dyddiad geni;
- Ffurflen gydraddoldeb.

Bydd angen i bobl ifanc roi bywgraffiad byr ohonynt eu hunain. Ni ddylai hyn fod yn hwy na 200 gair. Dylai nodi pam y byddai'n Aelod da o Senedd Ieuenctid Cymru a'r tri phwnc sydd bwysicaf iddi/iddo. Mae angen i'r materion hyn fod wedi'u datganoli i Gymru. Er enghraifft, iechyd, y Gymraeg, darpariaethau ieuenctid, yr amgylchedd ac ati. Ceir mwy o wybodaeth am yr hyn sydd wedi'i ddatganoli i Gymru ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliad.cymru/pwerau**.

Unwaith y bydd pobl ifanc wedi cwblhau eu ffurflen gais ar-lein yn llwyddiannus a'u gwybodaeth wedi'i gwirio, fe anfonir Pecyn Gwybodaeth atynt. Bydd hyn yn sôn wrthynt am bopeth y mae angen iddynt ei wybod ynghylch sefyll etholiad i Senedd Ieuenctid Cymru.

Bydd yr 20 sedd arall yn cael eu hethol gan sefydliadau partner.

# SEFYDLIADAU PARTNER

## CAIFF 20 O'R 60 O AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU EU HETHOL GAN SEFYDLIADAU PARTNER ER MWYN SICRHAU BOD GRWPIAU AMRYWIOL O BOBL IFANC YN CAEL EU CYNRYCHIOLI.

Gall unrhyw fudiad, o unrhyw faint, o unrhyw ran o Gymru, wneud cais i fod yn sefydliad partner.

Bydd angen i fudiadau sydd am ddod yn bartner swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru wneud cais ysgrifenedig erbyn 2 Gorffennaf, 2018, a byddant yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf penodol.

Mae canllaw ar ddod yn sefydliad partner i Senedd Ieuenctid Cymru a ffurflen gais i'w cael yn ***www.seneddieuenctid.cymru***

# SUT Y GALL YSGOLION A MUDIADAU IEUENCTID HELPU POBL IFANC I GOFRESTRU I BLEIDLEISIO?

## GALL YSGOLION A MUDIADAU IEUENCTID HELPU POBL IFANC I GOFRESTRU I BLEIDLEISIO DRWY:

Gefnogi ac annog pobl ifanc 11-18 oed i fynd ar **www.seneddieuenctid.cymru**. Mae'r broses gofrestru i bleidleiswyr yn agor ar 28 Mai 2018 ac yn cau ar 16 Tachwedd 2018. Bydd angen i bobl ifanc ddarparu'r wybodaeth ganlynol i wneud cais:

- Enw;
- Cod post (adref neu ysgol);
- Cyfeiriad e-bost;
- Dyddiad geni.

Sicrhau bod holl staff yr ysgol neu'r mudiad ieuenctid yn ymwybodol o'r etholiadau sydd ar y gweill i Senedd Ieuenctid Cymru.

Defnyddio deunyddiau hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru i godi ymwybyddiaeth. Gall ysgolion a mudiadau ieuenctid gysylltu â staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gael gwybodaeth a deunyddiau fel bo'r angen.

Trefnu digwyddiadau i hyrwyddo'r broses o gofrestru pleidleiswyr, er enghraifft, stondinau cofrestru pleidleiswyr amser cinio.